HM Prison & Probation Service

# Cynllun Gweithredu: CEF Brynbuga a CEF/YOI [Sefydliad Troseddwyr Ifanc] Prescoed

## Cynllun Gweithredu wedi’i Gyflwyno: 02 Medi 2025

## Ymateb i arolygiad Arolygiaeth Carchardai EF: 12 – 22 Mai 2025

## Cyhoeddwyd yr Adroddiad: 12 Awst 2025

### CYFLWYNIAD

Mae Arolygiaeth Carchardai EF [HMIP] ac Arolygiaeth Prawf EF Cymru a Lloegr yn arolygiaethau annibynnol sy'n craffu ar yr amodau ar gyfer carcharorion a throseddwyr, a'r modd y cânt eu trin. Maent yn adrodd ar eu canfyddiadau ar gyfer carchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac effeithiolrwydd gwaith y gwasanaeth prawf, a gwasanaethau troseddu ieuenctid ledled Cymru a Lloegr i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder [MoJ] a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi [HMPPS]. Mewn ymateb i'r adroddiad mae'n ofynnol i HMPPS / MoJ ddrafftio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a’r pryderon allweddol. Mae'r cynlluniau gweithredu’n darparu camau a gweithredoedd penodol i fynd i’r afael â’r blaenoriaethau a’r pryderon allweddol, sy’n glir, yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol gyda pherchennog ac amserlen pob cam wedi'i nodi'n glir. Anfonir cynlluniau gweithredu at HMIP a'u cyhoeddi ar wefan GOV.UK. Bydd y cynnydd a wneir o ran gweithredu a chyflawni'r cynlluniau gweithredu hefyd yn cael ei fonitro ac adroddir arno.

Cynllun Gweithredu: Adroddiad HMIP

Sefydliad: CEF Brynbuga a CEF/YOI Prescoed

| 1. Rhif y Cofnod | 2. Pryderon | 3. Ymateb Camau a Gymerwyd/a Gynlluniwyd | 4. Perchennog Cyfrifol | 5. Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|
| | **Pryderon a flaenoriaethir** | | | |
| 1 | **Nid oedd addysg, sgiliau a darpariaeth gwaith yn cefnogi pob dysgwr yn gyson i wneud cynnydd da, ac nid oedd yn ddigon ymatebol i newidiadau yn y boblogaeth ym Mhrescoed, gan adael rhai carcharorion heb ddigon i'w wneud.** | Bydd CEF Prescoed yn gwella'r cymorth sydd ar gael i bob dysgwr drwy'r camau canlynol:<br>• Cwblhaodd y Pennaeth Addysg, Sgiliau a Gwaith (HoESW) Ddadansoddiad Anghenion y sefydliad ym mis Gorffennaf 2025. Mae hwn bellach yn Ddadansoddiad Anghenion 'byw', parhaus, sy'n ymateb i unrhyw newidiadau ym mhoblogaeth y carchardai, sy'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y carchardai i gefnogi a neilltuo llwybrau cyflogaeth gwirioneddol yn seiliedig ar anghenion unigol a gwybodaeth am y farchnad lafur.<br>• Bydd y Pennaeth Lleihau Aildroseddu (HoRR) yn adolygu'r holl gyfleoedd cyflogaeth ar y safle i sicrhau bod y niferoedd yn briodol i'r gwaith sydd ar gael.<br>• Cwblhau asesiad trylwyr ar gyfer pob carcharor fel rhan o broses ymsefydlu Addysg. Yna neilltuir Llwybrau Cyflogaeth i bob carcharor yn seiliedig ar eu nodau unigol a chânt gynnig cwricwlwm wedi'i lywio gan wybodaeth am y farchnad lafur, gan roi cyfle iddynt wneud cynnydd o ran eu dedfryd a'u paratoi ar gyfer eu rhyddhau.<br>Er mwyn sicrhau nad yw carcharorion heb ddigon i'w wneud a'u bod yn cael eu paratoi'n ddigonol ar gyfer bywyd gwaith ar ôl eu rhyddhau, mae'r mesurau canlynol yn cael eu cyflwyno:<br>• Mae carcharorion a gyflogir fel Glanhawyr Unedau yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Addysg yn ogystal â'u dyletswyddau glanhau a mynychu cyrsiau fel Cymorth Cyntaf yn y gwaith, codi a chario a llyfrynnau 'Cynnydd yn y Gwaith'. | Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau<br>Ionawr 2026<br>Medi 2025<br>Medi 2025<br>Wedi'i gwblhau<br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd Swyddogion Preswyl yn sicrhau y cedwir at amserlenni glanhau a bod trefn oruchwylio effeithiol ar gyfer carcharorion a gyflogir fel Glanhawyr.<br>• Adolygu nifer y gweithwyr yn y gegin, ynghyd â'u patrymau shifft, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt yn ystod y diwrnod gwaith i fynychu cyrsiau eraill ac ennill cymwysterau ychwanegol i baratoi ar gyfer eu rhyddhau.<br>• Cyflwyno proses atgyfeirio ar gyfer carcharorion sy'n mynd i CEF Prescoed ac a nodwyd eu bod o dan Lefel 1 mewn Llythrennedd a rhifedd, fel y gellir eu cyfeirio at y y cwrs addysg priodol.<br>• Hyrwyddo'r gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael yn well, trwy gyfathrebu / hysbysiadau misol, i roi cyfle i garcharorion ennill cymwysterau ychwanegol.<br>• Bydd sicrhau ansawdd a thargedau ar gyfer gwella yn cael eu dogfennu, eu monitro a'u holrhain yn y cyfarfod Lleihau Aildroseddu bob deufis a chyfarfodydd misol y Grŵp Gwella Ansawdd (QIG). | | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Medi 2025 |
| 2 | **Roedd oedi wrth gymeradwyo ceisiadau rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) yn golygu nad oedd llawer o garcharorion ym Mhrescoed yn cael y cyfle i gael ROTL prydlon i'w helpu i baratoi ar gyfer eu rhyddhau'n ddiogel ac mewn ffordd adeiladol.** | Bydd CEF Prescoed yn parhau i wella'r oedi wrth gymeradwyo ceisiadau Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro (RoTL) drwy wneud y canlynol:<br>• Bydd gweinyddwyr achos a Rheolwyr Troseddwyr yn y Ddalfa (POMs) yn anfon nodiadau atgoffa ac yn mynd ar drywydd unrhyw geisiadau / gwiriadau ROTL sy'n agosáu at y dyddiad cau neu wedi mynd heibio. Lle bo angen, mewn sefyllfaoedd lle nad oes ymateb yn cael ei dderbyn, bydd y Pennaeth Gwasanaethau Rheoli Troseddwyr (HOMD) yn uwchgyfeirio'r achosion hyn.<br>• Gweithredu traciwr i gofnodi pob cais ROTL, wedi'i raglennu i nodi'r rhai sy'n agosáu at eu dyddiad cau a'r rhai sydd wedi mynd heibio eu dyddiad cau. Bydd hyn yn sail i uwchgyfeirio'r achos trwy'r HOMD i'r Uned Gwasanaethau Prawf a/neu'r Heddlu perthnasol.<br>• Ar ôl derbyn yr holl wybodaeth, bydd y byrddau ROTL yn ystyried y cais. | Llywodraethwr/ HOMD | Wedi'i gwblhau |

| | Pryderon allweddol | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3 | **Ym Mhrescoed, nid oedd rhai ardaloedd cymunedol a thu allan yn cael eu glanhau'n iawn, ac nid oedd staff i'w gweld yn ddigon amlwg yn yr adeiniau i hybu safonau neu gefnogi carcharorion.** | Bydd CEF Prescoed yn gwella'r safonau glendid ar gyfer ardaloedd cymunedol a thu allan, ynghyd â sicrhau bod staff i'w gweld yn fwy amlwg trwy wneud y canlynol:<br>• Gwelliannau parhaus i flociau llety, toiledau ac unedau cawod drwy adnewyddu a glanhau trylwyr. Mae'r gwaith ar y cawodydd yn Uned Bingham eisoes wedi dechrau, a chwblhawyd y gwaith glanhau ar Unedau Bingham a Llewellyn.<br>• Paentio blociau llety ar ôl cwblhau'r gwaith adnewyddu cawodydd ar bob uned, gyda dwy uned eisoes wedi'u cwblhau.<br>• Cyflwyno archwiliadau taclusrwydd dyddiol gan y swyddog sy'n gyfrifol am bob uned, i sicrhau bod meysydd sy'n peri pryder yn cael eu nodi a'u cywiro.<br>• Sefydlu system o archwiliadau sicrwydd ar gyfer glendid a thaclusrwydd gan y tîm rheoli Preswyl, gyda'r Dirprwy Lywodraethwr a'r Pennaeth Preswyl yn cynnal archwiliadau sicrwydd misol, gan gynnwys sicrhau bod gan bob uned/ardal ddigon o offer/deunyddiau glanhau.<br>• Bydd Swyddog y Dydd a'r Rheolwyr Preswyl yn briffio staff i sicrhau eu bod i'w gweld yn fwy amlwg o amgylch y safle er mwyn gwella'r drefn o oruchwylio'r gwaith glanhau.<br>• Bydd y Rheolwr Gweithrediadau Eiddo Ardal yn cynnal archwiliadau sicrwydd wythnosol/misol i sicrhau bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei gwblhau i gynnwys tiroedd a gerddi. | Llywodraethwr | Chwefror 2026<br><br>Chwefror 2026<br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |
| 4 | **Roedd cyfleusterau hunanarlwyo ym Mhrescoed yn rhy gyfyngedig i gefnogi carcharorion i** | Bydd CEF Prescoed yn archwilio'r posibilrwydd o gael rhagor o gyfleusterau hunanarlwyo ledled y safle drwy'r camau canlynol:<br>• Ar y cyd ag AMEY, ar wahân i'r rhaglen ehangu, bydd astudiaeth ddichonoldeb fewnol yn cael ei chwblhau i benderfynu a ellir uwchraddio cyflenwad trydan y safle i | Llywodraethwr | Hydref 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **baratoi ar gyfer byw'n annibynnol.** | gynyddu nifer y poptai a'r oergelloedd ar y gwersyll, er mwyn rhoi cyfle i garcharorion baratoi ar gyfer byw'n annibynnol.<br>• Bydd Rheolwr y Ddalfa (Preswyl) yn arwain prosiect i ystyried cael rhagor o gyfleusterau coginio ar unedau a chyflwyno cynnig ar gyfer costau a gwaith, yn amodol ar gyflenwadau trydan digonol.<br>• Disgwylir i'r rhaglen ehangu Capasiti ddechrau erbyn mis Tachwedd 2025, mae'r gwaith yn cynnwys gosod is-orsaf drydan ar y safle i fodloni'r gofynion am drydan ychwanegol ar y safle. Gyda'r unedau ceir cegin bwrpasol ac ystafelloedd bwyta cymunedol, bydd hyn ynghyd â'r cyflenwad trydan ychwanegol yn ein galluogi i edrych ar ddichonoldeb darparu cyfleusterau hunan-goginio ledled y safle.<br>• Cyflwyno'r drefn o hwyluso hunan-goginio, gan ddefnyddio unedau llety Bunker Bins (Leathwood, Dunbar a Micthell) gan fod ganddynt y capasiti a'r lle ar gyfer hyn.<br>• Ehangu'r ddarpariaeth sydd ar gael ar Uned Cameo i ddarparu cyfleusterau hunan-goginio i nifer uwch o garcharorion ar y safle. | | Rhagfyr 2025<br><br>Rhagfyr 2026<br><br>Hydref 2025<br>Rhagfyr 2025 |
| 5 | **Roedd rhai gwendidau o ran llywodraethu gofal iechyd clinigol: roedd adroddiadau am ddigwyddiadau yn isel ac nid oedd meysydd fel presenoldeb mewn apwyntiadau cleifion allanol a chlinigau'n cael ei fonitro'n ddigonol.** | Bydd y Darparwr Iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) yn sicrhau bod llywodraethu clinigol yn parhau i fod yn rhan annatod o'r ethos sydd wedi'i ymgorffori ym mhob agwedd ar ymarfer clinigol trwy'r camau canlynol:<br>• Bydd BIPAB yn atgoffa pob aelod o staff gofal iechyd am bwysigrwydd a gofynion dilyn prosesau rheoli risg, gan annog staff mewn cyfarfodydd tîm wythnosol/misol i gael sgyrsiau agored ynghylch digwyddiadau posibl heb ofni dial.<br>• Rhoi amser angenrheidiol i staff gwblhau adroddiadau Datix (system ar-lein ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau), gyda chefnogaeth gan gyfoedion a staff hŷn yn ôl yr angen.<br>• Sicrhau bod gan Nyrsys Arweiniol fynediad i systemau Datix i sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu rheoli mewn modd amserol a chywir. Lle bo hynny'n briodol, bydd y rhain yn cael eu cyfeirio i sylw staff uwch yn yr Is-adran Gofal Sylfaenol a Chymunedol.<br>• Bydd gwybodaeth gan Datix yn cael ei dadansoddi bob mis gan y Pennaeth Gofal Iechyd i nodi themâu/materion, i newid arferion lle bo angen, a gweithredu gweithdrefnau i wella diogelwch a lleihau digwyddiadau. Bydd achosion o bryder | Darparwr Gofal Iechyd | Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | sylweddol yn cael eu hychwanegu at gofrestrau risg y carchardai a'r bwrdd iechyd. Bydd y rhain yn cael eu diweddaru'n rheolaidd i leihau digwyddiadau a gwella gofal cleifion.<br><br>Bydd BIPAB a CEF Brynbuga/Prescoed yn gwella'r gwaith o fonitro apwyntiadau cleifion allanol drwy'r camau canlynol:<br><br>• Cofnodi holl apwyntiadau cleifion ar SystmOne (system gyfrifiadurol glinigol a gynhelir yn ganolog) a thaenlen i olrhain pob apwyntiad, er mwyn i BIPAB a'r carchar allu gweithio ar y cyd i drefnu hebryngwyr ar gyfer apwyntiadau.<br>• Adolygu'r broses uwchgyfeirio bresennol, er mwyn sicrhau bod proses gadarn ar waith i'r Uwch Reolwr Gofal Iechyd nodi ac uwchgyfeirio unrhyw gleifion sy'n gwrthod mynychu apwyntiadau neu ymchwiliadau meddygol dilynol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithdrefnau radiolegol), er mwyn i feddygon teulu allu eu hadolygu mewn modd amserol.<br>• Gweithredu map proses i sicrhau bod gan glinigwyr ddull cyson o adolygu cleifion sydd wedi gwrthod mynychu apwyntiadau ar gyfer ymchwiliadau clinigol neu apwyntiadau meddygol dilynol. Mae'r map yn cynnwys manylion sy'n ymwneud â dogfennaeth angenrheidiol yn y cofnodion clinigol i gefnogi'r timau clinigol, gan sicrhau bod dymuniadau cleifion, gan gynnwys gwrthod cydsynio i driniaeth, yn cael eu parchu a'u dogfennu.<br>• Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gyda model darparu newydd yn cael ei gyflwyno dros y 6 -9 mis nesaf. Bydd y model newydd yn canolbwyntio ar sgrinio a chofnodi data atgyfeirio yn fwy cywir, codio problemau, ynghyd â'r defnydd o dempledi asesu ac ymyrraeth sy'n cyd-fynd â chanllawiau NICE (Argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ddatblygwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth Iechyd a Gofal (NICE) i wella iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU).<br>• Gwella'r modd y cynllunnir gofal ar gyfer cleifion â chyflyrau iechyd hirdymor trwy:<br>    ➢ Weithredu 'Super User' SystmOne, i wella'r cynllun gofal presennol ar gyfer cleifion â chyflyrau iechyd hirdymor, gyda'r bwriad o wella iechyd a lles i'r claf. | Darparwr Gofal Iechyd/ Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ➢ Bydd cynlluniau gofal yn cael eu diweddaru'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion yr unigolyn ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn eu gofal.<br>➢ Darparu hyfforddiant staff ar gyfer cynllunio gofal i sicrhau bod anghenion unigol y cleifion yn cael eu diwallu.<br>• Bydd pob agwedd ar lywodraethu clinigol yn cael eu goruchwylio'n barhaus yng nghyfarfod misol y Grŵp Sicrhau Iechyd Carchardai a Bwrdd Partneriaeth Carchardai (PPB) iechyd chwarterol i helpu i nodi gwelliannau. | | |
| 6 | **Nid oedd cleifion yn gallu derbyn, neu gael presgripsiwn ar gyfer yr amrywiaeth gyfatebol o feddyginiaeth a oedd ar gael yn y gymuned.** | Bydd BIPAB yn sicrhau bod safon y gofal iechyd a ddarperir yn y ddau garchar yn cyfateb i'r hyn a ddarperir yn y gymuned. Mae'n bwysig nodi nad yw sicrhau hyn yn golygu'r un drefn i bawb; mae carchardai yn amgylcheddau cymhleth gyda heriau unigryw, ac mae'n rhaid addasu gofal iechyd yn unol â hynny i liniaru risg. Mae dewis meddyginiaeth yn un o'r meysydd lle mae'n rhaid i glinigwyr ystyried yn ofalus sut mae modd sicrhau gwasanaeth iechyd cyfartal i bawb. Gwneir hyn trwy wneud y canlynol:<br>• Cynnal archwiliad i asesu achosion lle nad yw carcharorion wedi'u derbyn oherwydd pryderon sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau, naill ai oherwydd nad yw'r feddyginiaeth yn addas i'w ddefnyddio gan unigolyn neu am nad yw'r unigolyn yn gallu rheoli ei feddyginiaeth yn annibynnol. Bydd y canfyddiadau yn dylanwadu ar ddiwygio'r polisi meddyginiaeth gan unigolyn yn y dyfodol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ymatebol ac yn addas i'r diben.<br>• Sicrhau bod presgripsiynu yn CEF Brynbuga a CEF Prescoed yn cyd-fynd â chanllawiau clinigol cenedlaethol a lleol a chanllawiau carchardai penodol fel cyhoeddiad Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP) *Safer Prescribing in Prisons: Guidance for Clinicians* (Ionawr 2019).<br>• Sicrhau bod y broses o roi presgripsiynau'n cael ei monitro a'i dadansoddi'n rheolaidd, gyda data perthnasol yn cael ei rannu yn ystod cyfarfodydd Rheoli Meddyginiaethau Carchardai misol i gefnogi ymarfer diogel ac effeithiol.<br>• Adolygu'r polisi meddyginiaeth gan unigolyn yn rheolaidd, ei ddiweddaru yn ôl yr angen mewn ymateb i wybodaeth leol, newidiadau mewn canllawiau presgripsiynu, a'r anghenion sy'n datblygu gan boblogaeth y carchar. | Llywodraethwr/ Darparwr Gofal Iechyd | Ionawr 2026<br>Wedi'i gwblhau<br>Wedi'i gwblhau<br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Ar hyn o bryd cefnogir cleifion a nodwyd fel rhai sy'n cael trafferth cymryd eu meddyginiaeth yn gyson trwy adolygiadau meddyginiaeth dan arweiniad fferyllwyr, gwiriadau cydymffurfio gan fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, ac ystod o ymyriadau wedi'u teilwra.<br>• Mae darpariaeth Rheoli Meddyginiaeth a Fferylliaeth yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn y PPB. Mae'r grŵp hwn yn sicrhau bod safonau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn cael eu cynnal a bod gwasanaethau'n cyd-fynd â fframweithiau gofal iechyd lleol a chenedlaethol. Rhoddir ffocws allweddol ar welliant parhaus, gydag ymrwymiad i ddatblygu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion sy'n datblygu a chynnal safonau gofal uchel. | | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |
| 7 | **Nid oedd hunanwerthuso addysg, sgiliau a gwaith yn canolbwyntio'n gyson ar ansawdd yr addysgu nac yn ystyried yr holl ddata perthnasol i ddylanwadu ar flaenoriaethau gwella.** | Bydd yr HoESW yn gwella hunanwerthuso addysg, sgiliau a gwaith ac ansawdd yr addysgu drwy wneud y canlynol:<br>• Gweithio mewn partneriaeth â'r HoRR i arwain y Grŵp Gwella Ansawdd (QIG) i werthuso'r holl ddata sydd ar gael, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, ddata CURIOUS, gwybodaeth DPP, ac adborth athrawon a dysgwyr i nodi meysydd y mae angen eu gwella. Bydd gan y QIG eitem sefydlog ar yr agenda i drafod y data a pharatoi camau gweithredu priodol a fydd yn cael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu Datblygu Ansawdd addysg.<br>• Adolygu'r cynllun gweithredu Datblygu Ansawdd i leihau nifer yr amcanion gweithredol fel bod mwy o bwyslais ar amcanion strategol.<br>• Adolygu'r Fframwaith Ansawdd i gefnogi trefn fwy cadarn a chyson o werthuso'r addysgu, ochr yn ochr â chalendr sicrhau ansawdd ar gyfer arsylwadau addysgu a theithiau dysgu a fydd yn nodi meysydd i'w gwella a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i staff, gan gynnwys adborth priodol i wella ansawdd yr addysgu.<br>• Gweithredu rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant proffesiynol ar gyfer holl staff addysg. Canolbwyntio ar wella ansawdd a thargedu cwestiynau, ymgorffori tasgau sy'n adalw gwybodaeth yng nghynlluniau athrawon, gwella dealltwriaeth athrawon o sut i gefnogi dysgwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), dysgu strwythuredig, defnyddio mannau cychwyn yn ddigon da neu ddarparu gweithgareddau heriol i symud y dysgu yn ei flaen. | Llywodraethwr | Hydref 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Gweithredu proses sicrhau ansawdd i sicrhau bod y gwaith o hunanwerthuso yn fanwl gywir, cynhwysfawr ac yn blaenoriaethu'r meysydd pwysicaf i sicrhau cynnydd. | | |
| 8 | **Doedd dim digon o ffonau i garcharorion ym Mhrescoed ac nid oedd yn bosibl defnyddio llawer ohonynt yn breifat.** | Bydd CEF Prescoed yn cynyddu nifer y ffonau a ddarperir a phreifatrwydd drwy wneud y canlynol:<br>• Darparu ffôn symudol addas ar gyfer pob ystafell, wedi'i gysylltu â'r system ffôn Rhif Adnabod Personol (PIN) bresennol, unwaith y gall HMPPS Digital ddarparu dyddiad gosod.<br>• Cael costau ar gyfer gosod ffonau PIN a mannau ffôn ychwanegol i gynyddu'r ddarpariaeth bresennol, nes bod dyddiad gweithredu ar gyfer dosbarthu ffonau symudol yn y safle agored yn cael ei ddarparu.<br>• Bydd y Pennaeth Preswyl yn sicrhau bod gan bob ffôn PIN ran sy'n sicrhau preifatrwydd a bod digon o le i greu mannau ffôn ar Unedau.<br>• Adleoli seinyddion sy'n cyhoeddi gwybodaeth o gyffiniau ffonau presennol i sicrhau mwy o breifatrwydd, ynghyd â gweithredu system i sicrhau bod gan bawb fynediad teg i'r ffonau. | Llywodraethwr | Gorffennaf 2026<br><br>Medi 2025<br><br>Medi 2025<br><br>Hydref 2025 |